PWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD MAWRTH, 6 TACHWEDD 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Goddard, Lancaster, Sattar, Taylor a/ac Wood |

5 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Derbyshire, Murphy a Williams.

6 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

7 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Awst 2018 fel cofnod cywir gan y Pwyllgor.

8 : ADOLYGIAD Y DATGANIAD O'R POLISI TRWYDDED GAMBLO

Yn ôl Deddf Trwyddedu 2005, mae'n ofynnol i'r awdurdod gyhoeddi Polisi Trwyddedu Datganiad Gamblo sy'n nodi'r egwyddorion y mae'n cynnig eu defnyddio wrth arfer ei swyddogaethau dan y ddeddf. Mae'n rhaid pennu'r Datganiad am gyfnod o 3 blynedd.

Mabwysiadwyd datganiad Polisi Trwyddedu Gamblo ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016. Mae'r Comisiwn Gamblo wedi darparu canllawiau ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn y polisïau, a'r canllawiau hyn oedd y sail wrth adolygu'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu Gamblo.

Cafodd y pwyllgor adroddiad a gofynnwyd iddynt gymeradwyo Datganiad o Bolisi Trwyddedu Gamblo wedi'i ddiwygio yn dilyn adolygiad o'r polisi. Atodwyd copi o'r polisi wedi'i ddiwygio i'r adroddiad. Mae'n ofynnol i'r awdurdod ymgynghori â'r awdurdodau cyfrifol a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â'r polisi wedi'i adolygu. Cynhaliwyd ymarfer ymgynghoriad cyhoeddus a gwahoddwyd barn ar y polisi presennol. Mae manylion yr ymatebion wedi eu hatodi i'r adroddiad yn Atodiad B.

Dywedwyd wrth Aelodau yr ystyrir Polisi Caerdydd yn esiampl a'i fod wedi'i hystyried yn dda yn gyffredinol. Pe byddai'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r polisi wedi'i ddiwygio, bydd angen wedyn ei gadarnhau ar gyfer Cyfarfod Llawn y Cyngor cyn ei fabwysiadu.

PENDERFYNWYD – bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Datganiad diwygiedig o Bolisi Trwyddedu Gamblo ac yn ei gynnig ar gyfer cadarnhad y Cyngor.

9 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chyflwynwyd unrhyw eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.15 am